

# CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

---

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07786 662905

[cyngorybala@outlook.com](mailto:cyngorybala@outlook.com)

## Cofnodion Cyngor Tref Y Bala

4/2/2016

**Presennol:** Y Maer Eifion Roberts, Dilys Evans, Dorothei Evans, Dilwyn Jones, Eluned Jones, Ivora Jones, Alun Price, Carol Rowlands, John C Williams, Y Cyngorydd Dilwyn Morgan,

**Ymddiheuriadau:** Edith Roberts, Sharon Evans, Lis Puw.

1. Estynnodd y Maer groeso cynnes i bawb. Yn ei adroddiad i'r Cyngor, cyfeiriodd y Maer at ei ymweliad a fflatiau Cysgod y Coleg ar eu newydd gwedd a'r argraff foddhaol iawn a gafodd ohonynt.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Derbyniwyd datganiadau buddiant gan Dilys Evans ym mater cais cynllunio 7i.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 7/1/2016.
5. Materion y Clerc a materion yn codi o gofnodion Ionawr sydd ddim ar yr Agenda:
  - i. Gwardeiniaid Parcio - darllenwyd llythyr o ymddiheuriad am y gwardeiniaid parcio yn rhwystro'r Cyngorydd John C Williams wrth iddo lanhau'r gofeb goffa.
  - ii. Meysydd parcio - derbyniwyd adroddiad o sgwrs ar y ffôn gyda Colin Jones yn dweud fod dyletswyddu haf a gaeaf y gwardeiniaid parcio o dan ystyriaeth. Derbyniwyd gwybodaeth fod y newidiadau i benodi ardaloedd *parcio tymor hir: tymor byr (25:75%)* yn y Plase mewn llaw, a gwybodaeth fod posibilrwydd cryf y bydd maes parcio'r Grîn yn cael wyneb newydd. Cytunodd y Cyngor. Dilwyn Morgan i bwysu fod y gwaith o ail wynebu'r Grîn yn mynd yn ei flaen.
  - iii. Golau ar y coed – cytunwyd i drafod y mater hwn yn y cyfarfod nesaf.
  - iv. Cytunwyd i wneud y gwaith o ddiogelu a fframio'r llun o'r Bala yn y pumdegau.
  - v. Mae cofnodion drafft Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru yn cael eu dosbarthu yn fuan o flaen llaw erbyn hyn.
  - vi. Goryrru yn Y Bala: disgwylir ymateb o du'r Llywodraeth. Cytunwyd i dynnu sylw'r heddlu at un gyrrwr anghyfrifol penodol.
  - vii. Ni chafwyd adborth am gamerau cylch cyfyng hyd yn hyn oddi wrth y Grŵp Busnes.
  - viii. Adroddodd y Cyngorydd Dilwyn Morgan fod arolwg wedi ei wneud o'r palmant anwastad yn Heol Tegid a'i fod yn edrych yn obeithiol y bydd gwaith yn cael ei wneud arno.
6. **Adroddiad y Cyngorydd Sir** Cyfeiriodd y Cyngorydd Dilwyn Morgan at y cyfarfod positif yn Ysgol y Berwyn parthed y cynlluniau ar gyfer yr ysgol newydd. Derbyniwyd sylwadau am yr angen am lefel uchel o ddiogelwch wrth ollwng plant ifanc. Nid oes gwybodaeth hyd yn hyn am ddyfodol adeilad Ysgol Bro Tegid. Bydd Cyngor Gwynedd yn cyfarfod ar 3/3/16 i wneud y penderfyniadau terfynol am y toriadau sydd yn angenrheidiol.

## 7. Materion Cynllunio a thrwyddedu:

- i. Cais Trwyddedu gan Spar i werthu diod bob dydd o'r flwyddyn o 7.00 y bore tan 11.00 yr hwyr: cytunwyd i beidio â gwneud sylwadau.

Roedd teimlad y dylai fod gan y Cyngor bolisi ar faterion trwyddedu.

- ii. Cais Cynllunio **NP5/ 53/LBAD53E** i arddangos hysbyseb; Cais Cynllunio **NP5/ 53/LBAD53F** i **gadw peiriant ATM**, Spar, 30 Y Stryd Fawr – Cytunwyd i wrthynebu'r ceisiadau hyn ar sail
  - a. Nid oes lle i'r Gymraeg
  - b. Mae'r banciau yn cynnig gwasanaeth digonol
  - c. Gosodwyd y peiriant a'r hysbyseb heb ganiatâd cynllunio
  - d. Mae amheuaeth os ydyw'r datblygiad yn gweddu o fewn ardal gwarchod cadwraeth
  - e. Mae pryder fod y safle yn cyfyngu ar y gofod ar y palmant

## 8. Materion Cyllid

Ystyriwyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf gan gynnwys gwybodaeth am ad-daliad TAW.

Derbyniwyd gwybodaeth am y **Terfyn ar Gyfer Gwariant 137**, sef £7.42 ar gyfer pob etholwr (£9,668.26)

Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis:

- Hysbyseb yn y Cyfnod (o gronfa'r Maer)
- Awen Meirion – 3 baner
- Cyflog y Clerc: Ionawr 2016

9. **Partneriaeth Penllyn:** gwnaethpwyd cais i HMRC am ad-daliad TAW (a fydd yn cael ei gyflwyno trwy goffrau'r Cyngor Tref).

10. **Asedau'r Cyngor:** Bydd y Cynghorydd Carol Rowlands yn rhoi adroddiad llawn yn y cyfarfod nesaf.

11. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref sydd wedi dod i law:**

Adroddodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan ei fod wedi cysylltu gyda'r Aelod Seneddol parthed yr angen am loches bws yn y dref; cyfrifoldeb y Llywodraeth yw darparu ar gyfer hyn.

Cyfarwyddwyd y Clerc i ohebu parthed y sbwriel ym maes parcio'r Co-op. Mynegwyd anfonlonrwydd hefyd am y llanast tu allan i Neuadd y Cyfnod a chytunwyd i gysylltu gyda'r perchennog.

12. **Dyddiad cyfarfod i ddyrannu arian:** 25/2/16 yn yr Henblas am 7.00pm

13. **Dyddiad y Cyfarfod arferol nesaf:** 3/3/16 yng Nghanolfan Henblas am 7.00pm